OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 795

## Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022

**Diwygio Atodlen 12**

**3.** Ym mharagraff 1(1), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "MAS wedi ei throsi" ("*converted AAO*") yw contract wedi ei drosi a oedd, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn feddiannaeth amaethyddol sicr;

mae i "meddiannaeth amaethyddol sicr" yr un ystyr ag a roddir i "assured agricultural occupancy" yn Rhan 1 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) (gweler adran 24(1) o'r Ddeddf honno)

mae "tenantiaeth sicr" ("*assured tenancy*") yn cynnwys cyfeiriad at feddiannaeth amaethyddol sicr a drinnir fel tenantiaeth sicr o dan adran 24(3) o Ddeddf Tai 1988 (yn ogystal â meddiannaeth amaethyddol sicr sy'n denantiaeth sicr);"

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 3 mewn grym ar 14.7.2022, gweler **rhl. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12) 2022, Adran 3.